

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd Prifysgol Caerdydd (ASQC) a gynhaliwyd Ddydd Mawrth 20 Gorfennaf 2021 am 9:30 a gynhaliwyd drwy Zoom

Yn bresennol: Ms Claire Morgan (Cadeirydd); Ms Gina Dunn; Ms Judith Fabian; Dr Kate Gilliver; Dr Robert Gossedge; Dr Julie Gwilliam; Yr Athro Dai John; Dr Emma Kidd; Mr Sebastian Ripley; Dr Andrew Roberts; Dr Hannah Shaw; Ms Orla Tarn; Yr Athro Helen Williams; Dr Robert Wilson.

Hefyd yn bresennol: Mr Rhodri Evans (Ysgrifennydd); Ms Helen Cowley; Ms Kath Evans; Ms Tracey Evans; Dr Catherine Horler-Underwood; Dr Amanda Rouse, Ms Tracey Stanley; Ms Martine Woodward; Mr Simon Wright.

Ymddiheuriadau: Yr Athro Martin Jephcote; Dr Andrew Kerr; Yr Athro Rhys Pullin.

1327 **Datganiad buddiant**

Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1328 **Cofnodion**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a gynhaliwyd ar 18 Mai 2021 (papur 20/667) yn gofnod cywir.

1329 **Materion yn codi**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/799, 'Materion yn Codi'.

Yn codi ohonynt:

1329.1 Rheoliadau (Cofnod 1307.1)

Nodwyd bod yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gwblhau ar gyfer y meysydd canlynol:

- Monitro Presenoldeb ac Ymgysylltu Myfyrwyr;
- Cwynion ac Apeliadau Myfyrwyr;
- Ymddygiad Myfyrwyr;

cwblhau asesiad effaith yr holl reoliadau academaidd ar gydraddoldeb.

1329.2 Byrddau Arholi (Cofnod 1307.3.5)

Nodwyd y byddai adolygiad o strwythur y Byrddau Arholi ac ystyried penodi Prif Arholwr Allanol yn cael ei gynnal yn 2021/22.

1329.3 Adolygiad o Gam Gweithredu Cadeirydd ASQC (Cofnod 1307.4)

Nodwyd

- .1 bod protocol wedi'i gyflwyno ar gyfer defnyddio Microsoft Teams ar gyfer cofnodi gweithredoedd gweithredol;
- .2 y byddai tasg yn cael ei chynnwys o fewn y cynllun gweithredu ar gyfer y strwythurau llywodraethu addysg newydd i gadarnhau

cynllun dirprwyo; gan egluro'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu ar ran ASQC.

1329.4 Siarter Uniondeb Academaidd (Cofnod 1308.2)

Nodwyd y byddai'r gwaith o fapio ein harferion presennol yn erbyn egwyddorion y Siarter yn cael ei wneud yn 2021/22.

1329.5 Llywodraethu Addysg (Cofnod 1309)

Nodwyd

- .1 bod y Senedd wedi cymeradwyo cynigion ar gyfer strwythur llywodraethu addysg newydd a diwygiadau i'r Rheoliadau Academaidd ar gyfer Llywodraethu Academaidd, a oedd yn cynnwys sefydlu:
 - Pwyllgorau Addysg Colegau a Phrofiad Myfyrwyr;
 - Pwyllgorau Addysg a Phrofiad Myfyrwyr;
 - Pwyllgorau Ymchwil Ôl-raddedig Ysgolion;
 - Grŵp Strategaeth Ymchwil Ôl-raddedig;
- .2 bod y Cyngor wedi cymeradwyo diwygiadau i Ordinhad 10:
 - i sefydlu Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr;
 - amrywio aelodaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd;
- .3 y byddai Pennaeth y Gofrestrfa yn datblygu cynllun ar gyfer gweithredu strwythurau llywodraethu addysg newydd yn raddol yn 2021/22.

1329.6 Ail-ddilysu (Cofnod 1310)

Nodwyd

- .1 bod y Senedd wedi cymeradwyo'r broses ail-ddilysu ar gyfer rhaglenni a addysgir i'w gweithredu yn 2021/22;
- .2 y dylid ystyried datblygu proses ail-ddilysu i fonitro, adolygu a gwerthuso rhaglenni ymchwil ôl-raddedig.

1329.7 Newidiadau i'r Rheoliadau Derbyn (Cofnod 1311)

Nodwyd bod y Senedd wedi cymeradwyo'r newidiadau a argymhellir i'r Rheoliadau Derbyn.

1329.8 Diwygiadau i'r Rheoliadau Dyfarnu, Rhaglenni, Modiwlau ac Asesu (Cofnod 1312)

Nodwyd bod y Senedd wedi cymeradwyo'r newidiadau a argymhellir i'r Rheoliadau Dyfarniadau, Rhaglen, Modiwlau ac Asesu.

1329.9 Polisi Astudio o Bell (Cofnod 1313.4)

Nodwyd bod y Senedd wedi cymeradwyo'r Polisi Astudio o Bell diwygiedig.

1329.10 Polisi Amgylchiadau Esgusodol (Cofnod 1313.5)

Nodwyd

- .1 bod y Senedd wedi cael gwybod y byddai'r polisi amgylchiadau esgusodol yn cael ei adolygu dros gyfnod yr haf a chyn y flwyddyn academaidd nesaf i fynd i'r afael â materion a godwyd gan staff a Byrddau Arholi ynghylch cyflawni'r polisi yn 2020/21;
- .2 bod y camau canlynol wedi'u cymryd cyn ailsefyll asesiadau, i roi eglurhad pellach yng nghyfathrebiadau myfyrwyr ynghylch amgylchiadau esgusodol, a diweddarau'r dasg SIMS:
 - cadarnhau mai dim ond os oes gan fyfyrwr amgylchiadau esgusodol y caniateir estyniadau;
 - atgoffa'r myfyrwyr o ddiffiniad amgylchiadau esgusodol, gan ddarparu enghreifftiau, a'r gofyniad i fodloni'r tri maen prawf: difrifol; annisgwyl; yn agos o ran amser at yr asesiad;
 - gall datganiadau a gyflwynir gan fyfyrwyr fod yn berthnasol i un asesiad yn unig;
 - dylai myfyrwyr roi manylion yr amgylchiadau wrth gyflwyno datganiad;
 - cadarnhad penodol i'w ddarparu gan y myfyrwr bod y datganiad yn gywir;
 - cydnabyddiaeth benodol o ddealltwriaeth y gallai datganiad ffug arwain at gamau disgyblu;
- .3 y dylai adolygiad o'r polisi amgylchiadau esgusodol yn y dyfodol ystyried cymhwyso'r polisi gan gyfeirio at asesiadau a oedd yn gofyn am waith grŵp.

1329.11 Rheoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau Ymchwil Ôl-raddedig (Cofnod 1314)

Nodwyd bod y Senedd wedi cymeradwyo'r newidiadau a argymhellwyd i'r Rheoliadau, Polisiâu a Gweithdrefnau Ymchwil Ôl-raddedig a Gweithdrefn newydd ar gyfer Ailgofrestru Cyn-fyfyrwyr Gradd Ymchwil i'w Arholi.

1329.12 Adroddiadau Safonwyr (Cofnod 1315.3)

Nodwyd bod ymateb wedi dod i law gan y Penaethiaid Ysgol perthnasol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiadau'r safonwyr.

1329.12 Darpariaeth Gydwethredol (Cofnod 1315.9)

Nodwyd y byddai cynigion ar gyfer dull sefydliadol diwygiedig ar gyfer sefydlu partneriaethau cydwethredol ffurfiol a addysgir, dilyniant, mynegiant, a threfniadau astudio dramor yn cael eu datblygu yn 2021/22.

1330 **Eitemau gan y cadeirydd**

1330.1 Cynllunio ar gyfer 2021/22

Nodwyd

- .1 bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar 30 Mehefin 2021 ar gynllunio tymor yr hydref ar gyfer addysg uwch yn cadarnhau y byddai prifysgolion o hydref 2021 yn gallu symud i ffwrdd o gadw'n llym at bellter cymdeithasol 2m ar gyfer myfyrwyr a byddai hynny'n caniatáu mwy o ddysgu wyneb yn wyneb pe bai risg COVID isel neu gymedrol yn parhau;
- .2 bod myfyrwyr wedi cael gwybod bod y cyhoeddiad yn galonogol, gan gynnig yr arwydd cliraf eto y byddai blwyddyn academiaidd 2021/22 yn agosach at brofiad academiaidd a phrofiad myfyrwyr yr ydym yn dymuno y gallent ei gael;
- .3 bod cynlluniau'n cael eu gweithredu i drefnu gweithgareddau ar y campws yn seiliedig ar y cyngor diweddaraf hwn gan y Llywodraeth, gan hefyd fod yn ymwybodol o'r angen am arian wrth gefn pe bai lefel y risg yn cynyddu;
- .4 bod cyngor hefyd wedi'i ddarparu i ysgolion ar gynllunio asesiadau ar gyfer y flwyddyn academiaidd nesaf, gan nodi na ddylent gymryd yn ganiataol y bydd modd dychwelyd i arholiadau ar y campws. Gofynnwyd i ysgolion gadarnhau dulliau asesu ar gyfer pob rhaglen i'r tîm ansawdd academiaidd erbyn 3 Medi cyn diweddarau'r data yn SIMS.

1330.2 Barn y Myfyrwyr

Nodwyd

- .1 bod Undeb y Myfyrwyr wedi cyflwyno ei adroddiad blynyddol, sef The Student View, i'r Brifysgol gan amlinellu themâu a materion allweddol y mae'n teimlo y gellid eu gwella neu eu cyflwyno er budd profiad y myfyrwyr;
- .2 y byddai'r Brifysgol yn darparu ymateb i'r adroddiad gan dynnu sylw at feysydd lle y gallem weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Maes o law, os bernir bod newidiadau i reoliadau neu bolisiau'n briodol, gofynnir i ASQC ystyried argymhellion o'r fath.

1330.3 Camau Gweithredu Gweithredol

Nodwyd

- .1 bod y Cadeirydd, yng nghyfarfod olaf pob blwyddyn academiaidd, yn gofyn am wirfoddolwr i adolygu'r camau gweithredu gweithredol a gymerwyd ac i gyflwyno adroddiad i ASQC;
- .2 cynhaliwyd yr adolygiad fel arfer gan un o aelodau'r pwyllgor a benodwyd gan y Senedd a gofynnwyd i wirfoddolwyr gyflwyno eu henwau i Mr Rhodri Evans.

1330.4 Aelodaeth o ASQC

Nodwyd

- .1 y byddai newidiadau yn 2021/22 i aelodaeth ASQC fel y cadarnhawyd gan y Senedd a'r Cyngor wrth gymeradwyo'r strwythur llywodraethu addysg diwygiedig;
- .2 bod yr Athro Ann Taylor, Ysgol Meddygaeth, wedi'i phenodi gan y Senedd i gymryd lle'r Athro Helen Williams yr oedd ei thymor wedi dod i ben; diolchwyd i'r Athro Williams am ei chyfraniad sylweddol i waith ASQC;
- .3 Croesawyd Ms Gina Dunn (Is-Lywydd Addysg) a Ms Orla Tarn (Is-Lywydd Ôl-raddedig) i'w cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor.

1331 **Adolygu a gwella blynyddol**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/808, 'Adolygu a Gwella Blynyddol (ARE) 2020/21'.

Nodwyd

- 1331.1 bod y Broses Adolygu a Gwella Blynyddol (ARE) yn un o'r prosesau ansawdd academiaidd allweddol a ddefnyddir i lywio'r adroddiad ansawdd blynyddol a gyflwynir i'r Senedd ac i'r Cyngor;
- 1331.2 bod gan ARE y meysydd ffocws canlynol yn 2020/21:
 - Canlyniadau'r Rhaglen — dilyniant, diffyg parhad, a deilliannau gradd
 - Boddhad Myfyrwyr — yn seiliedig ar ddata arolwg myfyrwyr
 - Gwerthuso Modiwl a Deilliannau Modiwl
 - Cynllunio a Chyflwyno Cwricwlwm
- 1331.3 bod disgwyl i bob ysgol adolygu data a gwybodaeth ar gyfer pob maes ffocws a llunio cynllun gweithredu, y Cynllun Gwella Profiad Myfyrwyr (SEEP). Roedd y SEEP yn ddogfen 'fyw' y dylid ei hadolygu a'i diweddarau'n barhaus, gan ddileu camau a gwblhawyd neu na flaenoriaethir mwyach a mewnosod camau gweithredu newydd os bydd angen;
- 1331.4 bod gwybodaeth ARE a SEEPs Ysgolion yn cael eu hystyried gan Bwyllgor ARE perthnasol y Coleg sy'n cyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd os ydynt o'r farn bod risg bod ansawdd y ddarpariaeth yn annigonol neu'n debygol o fod yn annigonol;
- 1331.5 bod Pwyllgor ARE y Coleg, ar ddiwedd pob blwyddyn academiaidd, yn cyflwyno adroddiad i ASQC a'i rôl yw craffu ar adroddiadau ARE y Coleg ac ystyried yr argymhellion.

1332 **Adroddiadau'r Coleg ar adolygu a Gwella Blynyddol (ARE)**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/802 'Adroddiad Coleg AHSS ar ARE'; 20/803 'Adroddiad Coleg BLS ar ARE a 20/804 'Adroddiad Coleg PSE ar ARE'.

Nodwyd

1332.1 bod pob adroddiad Coleg yn cadarnhau'r canlynol:

- bod pob Ysgol wedi ymgysylltu â phroses ARE yn 2020/21 ac wedi myfyrio ar foddhad myfyrwyr; ar deilliannau rhaglenni (deilliannau gradd, dilyniant, dyfarniad a diffyg parhad), ar adroddiadau arholwyr allanol; ar ddylunio a datblygu'r cwricwlwm;
- bod Is-bwyllgorau'r Coleg wedi cyfarfod ddwywaith i adolygu cynlluniau gweithredu, nodi materion a rennir, pryderon ac arfer gorau;
- bod gan bob Ysgol, drwy adolygu a thrafod gydag Ysgolion, gynlluniau gweithredu cyfredol a oedd yn addas at y diben;
- bod cyfarfodydd ysgol, pan oedd angen, wedi cael eu cynnal i drafod cynlluniau gweithredu, er bod effaith Covid-19 wedi peri i Ysgolion ohirio cyflwyno'r Cynlluniau Gweithredu Profiad Myfyrwyr (SEEPs) ac roedd hynny yn ei dro wedi gohirio adborth i Ysgolion.

1332.2 Ysgolion y nodwyd eu bod 'mewn perygl' yn 2019/20

Nodwyd

- .1 bod adroddiad Coleg BLS yn rhoi sicrwydd bod HCARE wedi cael ei fonitro a'i gefnogi drwy gydol y flwyddyn academaidd ddiwethaf gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder, ac o ganlyniad nad oedd bellach yn cael ei hystyried yn Ysgol 'mewn perygl';
- .2 bod adroddiad Coleg yr AHSS yn cadarnhau bod SHARE wedi cael ei fonitro a'i gefnogi drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf ac adolygu a rhesymoli portffolio rhaglenni israddedig yr Ysgol a gynhaliwyd, gan arwain at: ddirwyn 44 o raglenni i ben; at leihau dietau modiwl ar gyfer 2021/22; ac at ail-ddilysu'r holl raglenni israddedig sy'n weddill, er mwyn gwella profiad myfyrwyr. Byddai'r Ysgol yn parhau i gael ei dynodi yn un 'mewn perygl' nes bod yr holl gamau gweithredu y cytunwyd arnynt wedi'u cwblhau.

1332.3 Cyflawni Addysgu

Nodwyd

- .1 bod effaith COVID-19 ar ddarparu addysg yn 2020/21 ar draws yr holl Golegau yn parhau i gael ei rheoli'n dda gyda chynlluniau wrth gefn yn cael eu datblygu ar gyfer rheoli cyfnodau o fynediad cyfyngedig i gyfleusterau'r campws, a bod Adroddiad ARE pob Coleg yn nodi bod pob Ysgol wedi llwyddo i gadarnhau bod gan yr holl fyfyrwyr gyfle i fodloni deilliannau dysgu'r rhaglen;
- .2 o fewn DENTL a HCARE, bod y dyddiad ar gyfer cwblhau nifer o raglenni israddedig wedi cael ei ymestyn i ganiatáu i fyfyrwyr gwblhau cydrannau addysgu a lleoli clinigol y rhaglenni;
- .3 yn ystod mis Mawrth ac Ebrill 2021, cynhaliwyd Adolygiad o'r Addysgu i sicrhau bod myfyrwyr yn 2020/21:

- wedi cael y cyfle i ddangos bod deilliannau dysgu rhaglenni wedi cael eu cyflawni; ac
 - wedi cael profiad dysgu y gallent fod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd ganddynt gan yr Ysgol a'r Brifysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd;
- .3 bod y rhan fwyaf o Ysgolion yn gallu cadarnhau bod myfyrwyr wedi derbyn profiad dysgu y gallent fod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol, ar sail yr wybodaeth a gawsant ar ddechrau'r flwyddyn academaidd;
- .4 bod yr adolygiad o addysgu, ar y cyd â'r broses ARE, wedi datgelu sawl ymarfer y mae angen i'r Coleg graffu ymhellach arnynt a'u datrys, gan gynnwys
- amrywio'r trefniadau i ddarparu gweithgareddau ar y campws heb oruchwyliaeth y Coleg;
 - diffyg addysgu mewn grwpiau bach ar draws nifer o raglenni israddedig mawr;
 - nad yw gwybodaeth am raglenni yn gyfredol;
 - nifer o raglenni lle nad oedd deilliannau dysgu'r rhaglen wedi'u pennu;
 - diffyg unigrywiaeth rhwng graddau o fewn portffolio'r un Ysgol, gan ganiatáu i fyfyrwyr astudio'r un modiwlau ond derbyn teitlau dyfarniadau gwahanol;
 - roedd ansawdd cyfathrebu'r Ysgol yn anghyson ar draws y sefydliad gyda llawer yn brin o dystiolaeth ffurfiol o gyfathrebiadau a ddarparwyd i fyfyrwyr;
 - cysondeb wrth gymhwyso rheolau ailsefyll ac ailsefyll y rhaglen;
 - cadarnhad o lefelau FHEQ penodol mewn rhai rhaglenni Meistr integredig.

Penderfynwyd

- .5 y dylid cynnwys yr adolygiad o ddarpariaeth addysgu a'r cyfathrebiadau a ddarperir i fyfyrwyr yn y broses ARE, a darparu goruchwyliaeth drwy broses yr ARE;
- .6 y dylai'r Brifysgol, lle y bo'n briodol, ddarparu testunau templed safonol i Ysgolion ar gyfer yr holl gyfathrebu craidd â myfyrwyr sy'n ymwneud â gwybodaeth am raglenni ac unrhyw newidiadau i raglenni.

1332.4 Cynllunio A Chyflwyno'r Cwricwlwm

Nodwyd

- .1 bod dyluniad y cwricwlwm wedi'i drafod gyda phob Ysgol, yn dilyn cyhoeddi 'Crynoadau Adroddiadau Arholwyr Allanol' y Brifysgol a phapur ASQC ar 'Themâu Sefydliadol';
- .2 y dylid datblygu adnoddau a chymorth i ysgolion ar gyfer datblygu'r cwricwlwm fel y rhagwelwyd gan y Digwyddiad Gwella Cyflym ar y broses cymeradwyo rhaglenni;

- .3 bod Arholwyr Allanol wedi nodi bod angen i ysgolion wella'r modd yr ysgrifennwyd cwestiynau arholiad llyfr agored er mwyn osgoi gwaith llyfr gormodol gyda sylwadau ehangach ar yr angen i amrywio'r math o asesiad yn fwy ac adolygu'r meini prawf marcio;
- .4 bod rhai ysgolion wedi codi pryder ynghylch symud o arholiadau wyneb yn wyneb, yn enwedig o ran y potensial ar gyfer cydgynllwynio. Byddai prosiect Trawsnewid Asesiad y Brifysgol yn edrych ar sut y gellid cefnogi Ysgolion i ddylunio asesiadau sy'n lleihau'r pryderon hyn.

Penderfynwyd

- .5 y dylid darparu arweiniad i Ysgolion ar ddylunio asesiadau i leihau cydgynllwynio a datblygu cyfres o gefnogaeth ac arweiniad yn ymwneud â dylunio'r cwricwlwm;
- .6 y dylai pob Coleg ddarparu arweiniad ychwanegol i Ysgolion yn y blynyddoedd i ddod, er mwyn sicrhau bod myfyrdodau a chynllunio gweithredu yn fwy penodol ar ymgysylltiad myfyrrwyr â gweithgareddau dysgu cyfunol ac effaith y newid i asesu marciau ar-lein.

1332.5 Dadansoddiad Colegau o Foddhad Myfyrrwyr (Israddedig, PGT a PGR)

Nodwyd

- .1 nad oedd canlyniadau Adroddiadau ARE, ACF, PTES a PRES 2020/21 y Coleg wedi cael eu rhyddhau i'w dadansoddi ac i'w hystyried ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn;
- .2 bod rhaglenni Israddedig penodol yn 2020 yn CARBS, LAWPL, SOCSI, BIOSI, DENTL, HCARE, COMSC ac ENGIN wedi disgyn yn is na meincnod boddhad cyffredinol CCAUC, sy'n is na 60%;
- .3 bod adroddiadau ARE Y Coleg yn nodi bod pob un o'r 3 Choleg wedi cael eu bodloni bod y rhaglenni a nodwyd fel rhai islaw'r meincnod yn nata 2019/20 wedi ymgysylltu ac wedi rhoi camau gweithredu priodol ar waith;
- .4 mai ychydig o ddata oedd ar gyfer rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir yn 2019/20, gan fod gwerthuso modiwlau a PTES wedi'u canslo yng Ngwanwyn 2020 oherwydd pandemig Covid-19 a'r newid tuag at ddysgu ar-lein;
- .5 roedd pob Ysgol wedi myfyrio ar ddata gwerthuso modiwlau ac nid oedd unrhyw faterion sylweddol wedi'u nodi gan Ysgolion fel rhan o'r broses hon;
- .6 yn yr un modd â data PTES, ni ddigwyddodd PRES yn 2019/20 oherwydd pandemig COVID-19 ac felly gofynnwyd i Ysgolion roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gamau gweithredu a oedd heb eu gweithredu o'r flwyddyn academaidd flaenorol yn ogystal â mecanweithiau adborth eraill a ddefnyddir gan yr Ysgol.

- .7 mai'r garfan hon o fyfyrwyr oedd yr un gyntaf i'r pandemig effeithio arnynt yn eu hail flwyddyn a thrwy gydol eu blwyddyn olaf, gan wynebu sawl cyfnod clo a chyfyngiadau drwy gydol eu hastudiaethau;
- .8 roedd yn bwysig cydnabod yr ymdrech a'r gwydnwch y mae staff a myfyrwyr wedi'u dangos drwy gydol y pandemig, a chydabod nad oedd canlyniadau'r arolwg yn adlewyrchiad o'r ymdrech y mae cydweithwyr wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf;
- .9 bod canlyniadau'r ACF hefyd yn cynnwys data ar y set newydd o gwestiynau Covid-19 a ychwanegwyd at yr arolwg yn gofyn i fyfyrwyr am eu profiad yn ystod y pandemig ac na fyddai'r canlyniadau hyn yn cael eu cyhoeddi'n allanol ar lefel darparwr, ond y bydd gan y Brifysgol fynediad at y data hyn;
- .10 ei bod yn debygol y bydd sawl pwnc yn bodloni meini prawf presennol CCAUC ar gyfer monitro ychwanegol drwy 2021/22 a byddai Canolfan Cefnogaeth Addysg ac Arloesedd (CESI) yn gweithio gyda Deoniaid Colegau i nodi'r rhaglenni penodol y gellir eu cynnwys yn y pynciau hyn a chytuno ar y camau nesaf i gytuno ar gamau gweithredu.

1332.6

Canlyniadau'r Rhaglen

Nodwyd

- .1 bod Cadeirydd ASQC wedi gofyn i ddeg Ysgol ddarparu rhagor o wybodaeth am gynnydd graddau anrhydedd dosbarth 1af israddedig yn 2019/20: HCARE; PSYCH; MLANG; CERDDORIAETH; CHEMY; COMSC; DAEAR; ENGIN; MATHEMATEG; PHYSX;
- .2 bod pob Ysgol wedi rhoi esboniad ynglŷn â phroffil canlyniad y radd gyda chyflwyno'r rhwyd ddiogelwch yn ffactor;
- .3 bod data cadw, dilyniant a thynnu'n ôl ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig a addysgir, wedi cael eu hadolygu a'u bod yn cyd-fynd yn fras â data cadw, dilyniant a thynnu'n ôl ar gyfer blynyddoedd blaenorol;
- .4 bod materion wedi cael eu codi ar draws y tri Choleg ynghylch defnyddioldeb a/neu ddibynadwyedd y data a ddarparwyd am raglenni ac ar gyfer Byrddau Arholi ac y byddai deialog bellach yn digwydd i geisio datrys hyn;
- .5 yn AHSS, gyda myfyrwyr Ôl-raddedig, bod data dilyniant yn dangos gwelliant cryf o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, oherwydd cyfres gydlynol o gynlluniau gweithredu mewn Ysgolion allweddol lle roedd dilyniant yn nodedig ar ei hôl hi o ran meincnodau'r Brifysgol. Yn 2019/20:
 - Adolygiadau blynyddol a gwblhawyd: AHSS 83%; BLS 80%; PSE 71%
 - Adolygiadau 9 mis a gwblhawyd: AHSS 89%; BLS 77%; PSE 67%
 - Adolygiadau interim a gwblhawyd: AHSS 88%; BLS 88%; PSE 82%

Penderfynwyd

- .6 y byddai'r Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd yn parhau i fonitro canlyniadau graddau israddedig ac yn rhoi'r data priodol i Ddeoniaid Colegau i'w hadolygu yn ARE 2021;
- .7 y dylai canlyniadau gradd ar gyfer myfyrwyr BAME gael eu hystyried yn benodol ar gyfer pob ysgol fel rhan o broses yr ARE;
- .8 y bydd Deoniaid Addysg Colegau a Rheolwyr Addysg Colegau yn parhau i weithio gyda BI ac yn darparu arweiniad pellach i ysgolion i gynnig cysondeb yn y ffordd y cyflwynir deilliannau'r rhaglen i'r cylch ARE nesaf;
- .9 bod Deoniaid Ôl-raddedig y Coleg yn parhau i weithio gyda'r tîm Ansawdd a Gweithrediadau Ôl-raddedig i ddiwygio'r ffordd y cynhyrchir y data, a'r fethodoleg a ddefnyddir, gan fod angen deall y cyfraddau cwblhau yn gyd-destunol ac, yn hollbwysig, yn cynnwys myfyrwyr rhan-amser.

1332.7 Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr (SEEPS)

Nodwyd

- .1 bod y tri Choleg wedi gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwell arweiniad i Ysgolion a thempled mwy strwythuredig ar gyfer y SEEP, i helpu Ysgolion i gynhyrchu camau gweithredu a dargedir a chyraeddadwy a nodi enghreifftiau o arfer da ar gyfer pob maes ffocws;
- .2 er bod rhagor o gyngor ac arweiniad wedi cael eu datblygu ar gyfer Ysgolion wrth gwblhau'r SEEPs, roedd amrywioldeb yn parhau o ran sut y cafodd camau gweithredu eu nodi, eu blaenoriaethu, a'u halinio â blaenoriaethau sefydliadol, a'u monitro/cwblhau o fewn yr amserlenni a ragwelwyd.

Penderfynwyd

- .3 bod Colegau wedi nodi bod angen gwneud rhagor o waith i gefnogi Ysgolion yn y maes hwn yn rhagweithiol gan sicrhau bod y camau gweithredu wedi cael eu blaenoriaethu a'u bod yn gyraeddadwy, nad oeddent yn ormodol o ran nifer, a'u bod yn rhoi syniad o effeithiolrwydd a llwyddiant y camau gweithredu pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

1332.8 Adnabod Ysgolion 'mewn perygl' gan y Coleg yn 2020/21

Nodwyd

- .1 na fu unrhyw Ysgolion mewn BLS nac AHSS a amlygwyd fel rhai 'mewn perygl', fodd bynnag, roedd AHSS wedi nodi bod Economeg israddedig yn faes pwnc 'mewn perygl';
- .2 bod PSE wedi nodi bod ENGIN 'mewn perygl' a gofynnwyd i'r ysgol resymoli ei phortffolio er mwyn rhoi mwy o eglurder i ymgeiswyr a galluogi rheoli rhaglenni'n fwy effeithlon. Byddai goruchwylio ENGIN yn cael ei gynnal fel rhan o ail-ddilysu;

- .3 er bod ail-ddilysu wedi cael ei nodi fel ffordd o gefnogi Ysgolion i wella arfer, na fyddai llawer o ganlyniadau'r broses yn dwyn ffrwyth am sawl blwyddyn ac y gallai fod angen i Golegau gefnogi Ysgolion i ystyried ymyriadau mwy uniongyrchol;
- .4 y dylid ystyried sut mae pob Coleg yn defnyddio categoraiddio 'mewn perygl' ac ar beth mae'r penderfyniad yn seiliedig, gan fod pob adroddiad ARE y Coleg wedi nodi Ysgolion neu feysydd pwnc islaw y meincnod mewn nifer o feysydd ffocws ond nad oeddent wedi'u hamlygu fel rhai 'mewn perygl'.

1332.9 Ail-ddilysu 2021

Nodwyd

- .1 y bydd yr Ysgolion canlynol yn ail-ddilysu yn 2021/22:

- ENCAP
- JOMEK
- CERDDORIAETH
- MEDI - Ôl-raddedig a Addysgir
- OPTOM - Israddedig
- PHRMY - Israddedig
- PHYSX
- ENGIN

Penderfynwyd

- .2 y byddai pob Pennaeth Ysgol yn cael gwybod am ofynion y broses ail-ddilysu newydd a gymeradwywyd gan y Senedd, gan amlinellu unrhyw faterion penodol y dylid mynd i'r afael â hwy;
- .3 y byddai Deoniaid Addysg y Coleg yn diweddarau ASQC fel mater o drefn ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gan bob Ysgol trwy gydol blwyddyn academaidd 2021/22.

1333 **ARE 2021/22**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/806, Adolygiad a Gwella Blynyddol 2021/22.

Nodwyd

1333.1 bod y dull diwygiedig ar gyfer ARE wedi cwblhau dau gylch gweithredu, ac er gwaethaf yr aflonyddwch sylweddol o ganlyniad i bandemig Covid-19 yn 2020/21, roedd yn bosibl cwblhau ARE a oedd yn rhoi sicrwydd parhaus ar fodloni gofynion sylfaenol ac yn sicrhau y rhoddir sylw i gamau gweithredu â blaenoriaeth mewn Cynlluniau Gwella Profiad Myfyrwyr (SEEPs);

1333.2 bod ARE yn parhau i fod yn broses fonitro flynyddol effeithiol, effeithlon ac ymatebol, a nododd gyfleoedd i wella ansawdd profiad y myfyrwyr a meysydd ymarfer da cydnabyddedig, fodd bynnag, byddai gwella ARE ymhellach i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn adroddiadau ARE y Coleg ac i rhagweld yn well y byddai canlyniadau yn y dyfodol yn fuddiol;

- 1333.3 er bod ARE yn canolbwyntio ar fodloni gofynion sylfaenol, roedd angen sicrhau bod profiad myfyrwyr nid yn unig yn ddigonol ond yn rhagorol;
- 1333.4 y dylid ategu'r pedwar maes ffocws presennol ar gyfer ARE gyda maes ffocws ychwanegol — Hynt Graddedigion — nad oedd wedi'i gynnwys fel maes ffocws ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf gan nad oedd data ar gael;
- 1333.5 yr angen i ymgorffori'r adolygiad o ddarpariaeth addysgu o fewn ARE fel ffordd o gael sicrwydd na fu newidiadau i'r ymrwymadau a wnaed i fyfyrwyr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd;
- 1333.6 wrth adolygu canlyniadau graddau yn y cylch ARE nesaf byddai ystyriaeth yn cael ei roi i'r canlyniadau i fyfyrwyr BAME er mwyn sicrhau bod y camau sy'n ymwneud â'r bwloch cyrhaeddiad a gynhwysir o fewn datganiad canlyniadau graddau'r Brifysgol yn cael eu datblygu.

Penderfynwyd

- 1333.7 y byddai Deoniaid Addysg y Colegau a chydweithwyr o'r Gofrestrfa yn cyfarfod cyn dechrau'r cylch ARE nesaf i gwblhau dull gweithredu a chytuno arno ar gyfer cynnal ARE yn 2021/22;
- 1333.8 bod Deoniaid Addysg Colegau yn parhau i weithio gyda'r tîm Gwybodaeth Busnes i ddarparu gwell data a chymorth i Ysgolion sy'n cael mynediad at ddata ac yn ei ddehongli;
- 1333.9 bod Deoniaid Addysg Colegau yn gweithio gyda'r Deon Cyflogadwyedd ac Arweinwyr i ymgorffori Hynt Graddedigion fel rhan o broses yr ARE yn 2021/22.

1334 Amrywiadau i bolisiau a gweithdrefnau PGR ar gyfer 2021/22

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/801 'Amrywiadau i Bolisiau a Gweithdrefnau Ôl-raddedig ar gyfer 2021/22'.

Nodwyd

- 1334.1 mewn ymateb i amgylchiadau COVID-19, bod sawl amrywiad i bolisiau a gweithdrefnau Ôl-raddedig wedi'u cyflwyno ers sesiwn 2019/20 i helpu i liniaru'r aflonyddwch sy'n ymwneud â threfniadau gwaith, amgylchiadau esgusodol, monitro cynnydd, a chyflwyno ac arholi traethawd ymchwil;
- 1334.2 er mwyn parhau i gefnogi myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, cynigiwyd:
- .1 mabwysiadu dull diwygiedig ar gyfer ystyried a chymeradwyo ceisiadau i astudio i ffwrdd o'r Brifysgol fel amrywiad polisi newydd ar gyfer 2021/22;
 - .2 bod nifer o amrywiadau polisi mewn grym tan 31 Gorffennaf 2021 yn parhau, naill ai heb eu newid neu gyda rhywfaint o addasiad, tan 31 Ionawr 2022;
 - .3 y bydd yr amrywiad sy'n weithredol ar hyn o bryd ar y Polisi a'r Weithdrefn ar Fonitro Myfyrwyr Ymchwil yn cael ei godi, gyda pholisi safonol yn cael ei ailgyflwyno o 1 Awst 2021.

Penderfynwyd

- .4 cymeradwyo dull diwygiedig ar gyfer ystyried a chymeradwyo ceisiadau i astudio i ffwrdd o'r Brifysgol ar gyfer 2021/22.
- .5 cymeradwyo amrywiadau i'r polisiâu canlynol tan 31 Ionawr 2022:
- Polisi Cyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil
 - Gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais, cyflwyno ac arholi PhD drwy Weithiau Cyhoeddedig
 - Polisi a Gweithdrefnau ar gyfer Cynnal Arholiadau Gradd Ymchwil
 - Polisi a Gweithdrefnau ynghylch trefnu a chynnal Arholiadau Gradd Ymchwil (Arholiad Llafar) mewn ffyrdd gwahanol
 - Polisi a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil)
 - Polisi a Gweithdrefnau ynghylch gohirio Astudiaethau ac estyn y Terfyn Amser (Myfyrwyr Ymchwil)
 - Polisi a Gweithdrefnau ynghylch atal Mynediad at Draethodau Gradd Ymchwil

1335 Cynllun gweithredu adolygiad gwella ansawdd (QER)

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/807 'Diweddariad ar Adolygiad Gwella Ansawdd'.

Nodwyd

- 1335.1 bod y QER ym mis Mawrth 2020 wedi cadarnhau bod gan y Brifysgol drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau safonau academiaidd, rheoli ansawdd academiaidd, a gwella ansawdd profiad myfyrwyr;
- 1335.2 y cyhoeddodd y Brifysgol, yn ôl y gofyn, ei chynllun gweithredu QER ar y tudalennau gwe gwybodaeth gyhoeddus gan fynd i'r afael â chadarnhad y Tîm Adolygu ac egluro sut y byddai'n manteisio ar y gymeradwyaeth;
- 1335.3 y dylai ASQC adolygu gweithrediad y cynllun yn flynyddol, nes bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau, ac adrodd ar gynnydd i'r Senedd a'r Cyngor yn yr adroddiad ansawdd blynyddol;
- 1335.4 bod y Brifysgol, ers cyhoeddi'r cynllun gweithredu QER, wedi parhau i adeiladu ar y cadarnhad o ymgorffori'r broses adolygu a gwella blynyddol ddiwygiedig (ARE), a bod y Senedd wedi cymeradwyo polisi Monitro ac Adolygu a oedd yn cadarnhau sut mae'r Brifysgol yn monitro, adolygu ac yn gwerthuso gweithgaredd sy'n dwyn credyd;
- 1335.5 oherwydd yr aflonyddwch a achoswyd gan bandemig Covid-19, cafodd y CUROP ei atal dros dro a gohiriwyd adolygiad tan 2021/22;
- 1335.6 y byddai dadansoddiad o'r materion sefydliadol ehangach a nodwyd drwy baratoi ar gyfer QER yn cael ei gyflwyno i ASQC yn 2021/22.

Penderfynwyd

1335.7 cymeradwyo'r cynllun gweithredu QER wedi'i ddiweddarau fel y manylir arno ym mhapur 20/807.

1336 **Cadarnhau dyddiadau sesiynau ar gyfer 2021/22**

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/800, 'Cadarnhau dyddiadau sesiynau ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 a chymeradwyaeth dros dro i ddyddiadau hyd at a chan gynnwys 2026/27'.

Nodwyd

1336.1 nad oedd y dyddiadau dros dro ar gyfer 2021/22 wedi cael eu cadarnhau hyd yn hyn yn ystyried rhoi sylw i'r ystyriaethau ar y trefniadau ar gyfer ymsefydlu, addysgu ac asesu;

1336.2 y byddai 2021/22 yn dychwelyd yn ôl i batrwm arferol y flwyddyn academaidd gan nad ystyriwyd bod angen gwneud amrywiadau penodol i fynd i'r afael â rheoli risgiau COVID.

Penderfynwyd

1336.3 **argymell** dyddiadau'r flwyddyn academaidd ar gyfer 2021/22 i'r Senedd a'r Cyngor:

Ymrestru	Wythnos yn Cychwyn 27 Medi 2021
Semester yr Hydref	04 Hydref 2021 i 30 Ionawr 2022
Gwyliau'r Nadolig	18 Rhagfyr 2021 i 09 Ionawr 2022
Cyfnod Arholiadau	17 Ionawr 2022 i 28 Ionawr 2022
Semester y Gwanwyn	31 Ionawr 2022 i 17 Mehefin 2022
Gwyliau'r Pasg	02 Ebrill 2022 i 24 Ebrill 2022
Cyfnod Arholiadau	16 Mai 2022 i 17 Mehefin 2022

1336.4 i gadarnhau'r dyddiadau dros dro ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/27:

Ymrestru	Wythnos yn Cychwyn 28 Medi 2026
Semester yr Hydref	05 Hydref 2026 i 31 Ionawr 2027
Gwyliau'r Nadolig	19 Rhagfyr 2026 i 10 Ionawr 2027
Cyfnod Arholiadau	18 Ionawr 2027 i 30 Ionawr 2027
Semester y Gwanwyn	01 Chwefror 2027 i 18 Mehefin 2027
Gwyliau'r Pasg	20 Mawrth 2027 i 11 Ebrill 2027

Cyfnod Arholiadau	17 Mai 2027 i 18 Mehefin 2027
-------------------	-------------------------------

1336.5 cadarnhau amserlen y Bwrdd Arholi ar gyfer 2021/22:

Dyddiad Allweddol	Gweithgaredd
Dydd Gwener 17 Mehefin 2022	Diwedd Cyfnod Arholiadau'r gwanwyn
Dydd Mercher 29 Mehefin 2022	Dyddiad cau ar gyfer cyfarfod Bwrdd Arholi'r flwyddyn olaf
Dydd Gwener 01 Gorffennaf 2022	Dyddiad cau ar gyfer derbyn penderfyniadau'r Bwrdd Arholi ar gyfer y Flwyddyn Olaf yn y Gofrestrfa
Dydd Mercher 06 Gorffennaf 2022	Dyddiad cau ar gyfer cyfarfod y Byrddau Arholi nad ydynt ar gyfer y flwyddyn olaf
Dydd Gwener 08 Gorffennaf 2022	Dyddiad cau ar gyfer derbyn penderfyniadau'r Byrddau Arholi ar gyfer y Flwyddyn Olaf yn y Gofrestrfa
Dydd Llun 18 i ddydd Gwener 22 Gorffennaf 2022	Y Seremonïau Graddio.
Dydd Llun 01 Awst 2022	Cyhoeddi Amserlen yr Arholiadau Ailsefyll
Dydd Llun 15 i ddydd Gwener 26 Awst 2022	Cyfnod Ailsefyll Arholiadau
Dydd Mercher 07 Medi 2022	Dyddiad cau ar gyfer cyfarfod Byrddau Arholiadau Ailsefyll
Dydd Gwener 09 Medi 2022	Dyddiad cau ar gyfer derbyn penderfyniadau'r Byrddau Arholi sy'n ystyried arholiadau a gaiff eu hailsefyll yn y Gofrestrfa

1336.6 cadarnhau mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno traethodau hir ar gyfer rhaglenni Meistr amser llawn blwyddyn yn 2021/22 yw dydd Gwener 16 Medi 2022.

1337 Adroddiadau gan grwpiau

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 20/805, 'Adroddiad gan Banel Sefydlog y Rhaglen a'r Partner'.

Nodwyd

- 1337.1 bod yr aelodau wedi cael gwybod bod nifer o gynigion wedi cael eu hadolygu gan y Panel gydag amodau i'w bodloni 6 mis ar ôl ystyriaeth gychwynnol
- 1337.2 bod y cyfnod hiraf o amser oedd yn weddill ar gyfer y rhaglenni canlynol:
- MLANG: Newidiadau Mawr i raglenni BA Cydanrhydedd Siapaneg - yr amodau sy'n weddill o fis Mawrth 2020;
 - COMSC: MSc Peirianeg Meddalwedd gyda Blwyddyn ar Leoliad Proffesiynol — yn ddyledus o fis Mehefin 2020;
 - BIOSI: MSc Bioleg Data Mawr — yn ddyledus o fis Ionawr 2021;
- 1337.3 bod oedi o ran amodau boddhaol Ysgolion yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i recriwtio a bodloni eu rhwymedigaethau a nodir yng Ngham 1 y Gymeradwyaeth Strategol i raglenni.
- Penderfynwyd**
- 1337.4 y byddai'r Deon Addysg Coleg perthnasol yn codi'r amser a gymerir i fodloni amodau gyda Phenaethiaid Ysgolion, er mwyn sicrhau bod yr amodau'n cael eu cwblhau o fewn cyfnod o 6 wythnos i alluogi cylch recriwtio priodol.
- 1338 **Camau a gymerwyd ar ran y pwyllgor**
- Derbyniwyd a nodwyd papur 20/797, 'Camau Gweithredu Arferol a Gymerwyd ar Ran y Pwyllgor', a phapur 20/798, 'Cymeradwyo amrywiadau trefniant o ganlyniad i Covid-19'.
- 1339 **Dyddiadau cyfarfodydd: 2021/22**
- Nodwyd y byddai dyddiadau'r cyfarfodydd a gynhelir yn 2021/22 yn cael eu dosbarthu maes o law.